

# Cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru Gorffennaf 2023

## Pen-blwydd Cyntaf Hapus!

Allwch chi gredu - dyma ein pen-blwydd cyntaf! Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi gallu rhoi gwybod i chi am ddatblygiadau economaidd allweddol yn y rhanbarth a dweud wrthych am y tîm Tyfu Canolbarth Cymru a'r hyn a wnawn.

Rydym hefyd wedi gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am gynnydd Bargen Twf Canolbarth Cymru a sut mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn cynyddu ei hymgysylltiad â busnesau a rhanddeiliaid, gan roi llais iddynt ddylanwadu ar flaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth.

Credwn fod hyn yn werth ei ddathlu a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddweud **diolch**, i chi y darllenydd, am danysgrifio i'n cylchlythyr a chysylltu o bryd i'w gilydd i rannu eich newyddion. Gan ein bod yn bartneriaeth, bydd ein gweledigaeth bob amser yn cydweithio â busnesau lleol, arweinwyr academaidd, a llywodraeth genedlaethol a lleol i greu gweledigaeth ar gyfer twf Canolbarth Cymru yn y dyfodol, i ddylanwadu a hyrwyddo ein gobaith i ehangu yn y dyfodol.

Yn y rhifyn hwn, rydym yn adrodd ar dderbyniad diweddar a gynhaliwyd yn Sioe Frenhinol Cymru, diwrnod tîm i ffwrdd ac mae'n braf rhannu strwythur ein staff gyda chi a throsolwg o swyddogaethau

Tyfu Canolbarth Cymru. Cawn wybod mwy gan Nicola Williams, ein Cyd-Swyddog Arweiniol Strategol, yn ein hadran 'Cwrdd â'r Tîm'.

Os ydych chi'n fusnes yn y rhanbarth, cwblhewch arolwg y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol - am 5 munud yn unig o'ch amser gallech fod yn helpu i lywio cynlluniau pwysig ar sgiliau a recriwtio a allai fod o fudd i chi, eich staff a'ch busnes. Darllenwch ymlaen am fwy o wybodaeth.

Helpu i dyfu cyfle yng Nghanolbarth Cymru,

***Tîm Tyfu Canolbarth Cymru***

** Peidiwch ag anghofio, os yw eich sefydliad yn rhan o Tyfu Canolbarth Cymru, cysylltwch â ni i rannu eich newyddion!*



## Tîm Tyfu Canolbarth Cymru – i gyd gyda'i gilydd!

Yn gynharach y mis hwn, cymerom yr amser i ddod â'r holl dîm ynghyd ar gyfer diwrnod i ffwrdd yng Nghwm Elan. Dyma'r tro cyntaf i'r tîm i gyd lwyddo i fod yn yr un lleoliad wyneb yn wyneb, erioed!

Fe wnaethon ni gymryd yr amser i fyfyrio ar ein cyflawniadau fel tîm hyd yn hyn. O'r cydweithio cynnar i sefydlu Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, gan ddylanwadu ar drafnidiaeth a blaenoriaethau economaidd yn y rhanbarth, gan weithio gyda'n partneriaid trawsffiniol a rhanddeiliaid rhanbarthol i sicrhau bod anghenion a chyfleoedd Canolbarth Cymru yn cael eu mynegi a bod cyllid yn cael ei flaenoriaethu, mae llawer wedi digwydd yng Nghanolbarth Cymru.

Gwnaethom ganolbwyntio ar rai o lwyddiannau diweddar allweddol:

- **Ymgysylltu Rhanbarthol:** adeiladu a chynnal perthynas strategol a gosod y Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru. Sicrhau strategaeth gydlynol sy'n cyd-fynd â pholisi'r Llywodraeth a gwrando ar anghenion ein rhanddeiliaid rhanbarthol.
- **Bargen Twf:** cynnydd sylweddol a gyflawnwyd gyda'r cyhoeddiad sydd ar fin dod o'r £110m o gyllid y Llywodraeth, gan adlewyrchu newid ffocws o ddatblygu i gyflawni.
- **Sgiliau:** sefydlu a lansio ein Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn llwyddiannus a'n Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth 3 blynedd. Gosod y sylfeini ar gyfer y dirwedd sgiliau strategol yng Nghanolbarth Cymru a'r mecanweithiau i ymgysylltu â'r sector preifat.
- **Ynni:** bwrw ymlaen â'r strategaeth Ynni i gynllunio gweithredu gyda'n grŵp cynghori. Gosod camau i alluogi a chefnogi ein rhanddeiliaid allweddol i gyflawni newidiadau trawsnewidiol ar gyfer y tymor hir.
- **Cronfa Ffyniant Gyffredin:** sicrhau £42m o arian i Ganolbarth Cymru drwy'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol a galluogi'r Awdurdodau Lleol i gyflawni ar gyfer cymunedau, busnesau a phobl Canolbarth Cymru.
- **Cyfathrebu:** Myfyrio ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, a pha ddulliau newydd y gellid eu mabwysiadu i sicrhau bod ein dulliau cyfathrebu yn cyrraedd ar draws pob sector a chynulleidfa.

Fe wnaethon ni hefyd gymryd amser i fyfyrio ar y daith sydd o'n blaenau:

- **Ymgysylltu Rhanbarthol:** diweddaru ein Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru i adlewyrchu newidiadau a chynnydd diweddar, gan gyd-fynd ag uchelgeisiau'r Llywodraeth, a helpu i adolygu ein llywodraethu yn y rhanbarth.
- **Bargen Twf:** canolbwyntio ar gyflawni ein Rhaglenni a'n Prosiectau – gan sicrhau bod ein partneriaid yn gallu dechrau darparu ar brosiectau.
- **Sgiliau:** adeiladu ar ein hymgysylltiad â'r sector preifat a chryfhau ein dealltwriaeth o'n marchnad lafur, gan edrych ar offer ymarferol ac atebion i helpu'r rhanbarth i fynegi cyfleoedd a bylchau sgiliau yn glir.
- **Ynni:** galluogi a chefnogi rhanddeiliaid rhanbarthol i gyflawni yn ogystal â nodi meysydd allweddol o ymyrraeth bosibl.
- **Cronfa Ffyniant Gyffredin:** pwyso a mesur y dirwedd gyflenwi, deall bylchau, a gweithio gyda chydweithwyr i helpu i ddarparu blwyddyn 2 a blwyddyn 3 lwyddiannus o'r rhaglen.
- **Cyfathrebu:** adeiladu ar ein gwaith i sicrhau cyfathrebu rheolaidd a segmentedig am y gwaith a wnawn, a'r effaith y mae'n ei chael.

I ddarllen mwy am ein gwaith, a'r dogfennau a'r cynlluniau yr ydym eisoes wedi'u cyhoeddi – ewch i'n gwefan.



*1 - Tîm Tyfu Canolbarth Cymru*

## Siart a Throsolwg Strwythur Canolbarth Cymru

O'r diwedd mae gennym hefyd siart sefydliad Tyfu Canolbarth Cymru - sy'n nodi pwy yw pwy yn y tîm a rôl gwahanol grwpiau a byrddau sy'n gysylltiedig â ni.

Gallwch ddod o hyd i'r siart ar ein gwefan.




## Cynyddu cyfleoedd yng Nghanolbarth Cymru

Ddydd Llun, Gorffennaf y 24ain yn Sioe Frenhinol Cymru, mynychodd partneriaid Tyfu Canolbarth Cymru dderbyniad i ystyried y cynnydd sydd wedi'i gyflawni hyd yma ac i edrych ymlaen at y camau datblygu nesaf ar draws holl waith y rhanbarth.

Ymhlith y sawl a fynychodd roedd busnesau ar draws Ceredigion a Phowys, uwch gynrychiolwyr gwleidyddol a rhanddeiliaid allweddol o amrywiaeth o sefydliadau partner.

Clywodd y digwyddiad am y cynnydd sy'n cael ei wneud ers ffurfio partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn ôl yn 2015, a oedd yn cynnwys:

- Y rhaglenni a'r prosiectau sy'n cael eu cefnogi ar draws gwahanol ffrydiau cyllido - o gronfeydd yr UE, cyllid Llywodraeth y DU a Bargen Twf Canolbarth Cymru.Gofynion a chyfleoedd o ran sgiliau yng Nghanolbarth Cymru

Roedd ffocws penodol ar Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, gyda diweddariad i dirwedd sgiliau'r rhanbarth a chynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd presennol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cael ei archwilio. Roedd busnesau a phartneriaid yn gallu trafod sut y gall y Cynllun helpu i ysgogi newid yn y rhanbarth a sut olwg sydd ar y dyfodol ar gyfer sgiliau mewn gwahanol sectorau. Mae'r Cynllun ar gael ar wefan Tyfu Canolbarth Cymru, [www.tyfucanolbarth.cymru/PartneriaethSgiliauRhanbartholCanolbarthCymru](www.tyfucanolbarth.cymru/PartneriaethSgiliauRhanbartholCanolbarthCymru)

Dywedodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion a'r Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys ar y cyd: "Mae hwn wedi bod yn gyfle gwych i ymgysylltu

â'n partneriaid a busnesau'r rhanbarth i gael cipolwg ar yr hyn y maent yn ei brofi ar hyn o bryd o ran uwchsgilio, hyfforddi a recriwtio. Mae'n hanfodol ein bod yn cael y cyfleoedd hyn i siarad a gwrando ar ein gilydd i sicrhau bod gennym y blaenoriaethau cywir yn eu lle i ysgogi buddsoddiad sy'n bodloni gofynion y cyflogwyr a'r gweithlu.

Mae hefyd wedi bod yn wych rhannu gyda'n partneriaid y gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo yn y rhanbarth ar draws nifer o ffrydiau cyllido. Rydyn ni'n gweld ffrwyth ychydig flynyddoedd o lafur yn dechrau dod i'r amlwg nawr. Mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i weithio ochr yn ochr â'n gilydd i sicrhau newid gwirioneddol i'n rhanbarth."





## Rheolwr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol newydd Canolbarth Cymru



*2 - Dai (David) Price , Rheolwr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol*

Y mis hwn, ymunodd Dai (David) Price â'r tîm fel ein Rheolwr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol newydd Canolbarth Cymru. Mae Dai yn ymuno â ni o Gyngor Dinas Bryste ac mae ganddo lawer o brofiad mewn gwaith, sgiliau a datblygiad cymunedol o fewn llywodraeth leol.

Rydym yn dymuno'r gorau i Aggie Caesar-Homden yn ei rôl newydd fel Rheolwr Gwasanaeth, Datblygu Economaidd ac Adfywio i Gyngor Sir Powys. Roedd Aggie yn allweddol wrth reoli'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ers ei sefydlu.

Hefyd, diolch yn fawr i Louise Grove-White am ei chyfnod fel Rheolwr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol dros dro.

## Grŵp Clwstwr Busnes Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru

Cyfarfu Grŵp Clwstwr Busnes Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru am yr eildro yn Hafan yr Afon yn y Drenewydd i drafod sgiliau digidol a rhwystrau yn y rhanbarth. Ymhlith y siaradwyr gwadd roedd Kevin Harrington o Antur Cymru  Enterprise a Sion Meredith o Raglen Sgiliau Hyblyg Llywodraeth Cymru. Roedd yn wych gweld wynebau cyfarwydd a busnesau newydd yn ymuno â'r grŵp clwstwr. Bydd ein cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Hydref.

I ymuno â'r grŵp a helpu i roi mewnbwn ar y meysydd Sgiliau sy'n bwysig i chi, cysylltwch â: midwalesrsp@powys.gov.uk



## Arolwg Sgiliau Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) Canolbarth Cymru

Mae gan y PSRh ddiddordeb yn yr hyn sydd gennych i'w ddweud am yr heriau yr ydych yn eu hwynebu fel busnes ac, yn benodol, ynghylch recriwtio sgiliau nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar y dirwedd sgiliau ar gyfer Canolbarth Cymru – drwy ateb yr ychydig gwestiynau hyn gallwn gasglu data a fydd yn llywio ac yn dylanwadu ar newid yn y mannau cywir.

Helpwch ni i roi gwybod i Lywodraeth Cymru pa ddarpariaeth sgiliau sydd ei hangen arnom er mwyn i'r economi a phobl ar draws Canolbarth Cymru ffynnu.

Cwblhewch yr arolwg yma.



## Cwrdd â'r Tîm

**Nicola Williams**

Arweinydd Strategol ar y Cyd, Tyfu Canolbarth Cymru

- **Pryd wnaethoch chi ddechrau gyda'r tîm?**

Ymunais â Chyngor Sir Powys yn 2003 ar ôl gweithio am 18 mlynedd mewn Cwmni Cyfleustodau Sector Preifat mawr – Dŵr Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'm gyrfa o fewn y Cyngor wedi bod mewn Archwiliad Mewnol, ond yn 2018 cymerais newid cyfeiriad a dechrau gwaith mewn Rheoli Rhaglenni,

yn arwain ar rai rhaglenni mawr o newid o fewn y Cyngor gan gynnwys Rhaglen Cyflawni Trawsffurfio y Cyngor.

Yn ddiweddarach yn 2020, cefais secondiad i sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru a alluogodd i mi ddechrau gweithio ar y cyd â Chyngor Sir Ceredigion. Ym mis Gorffennaf y llynedd, ehangwyd fy rôl i gynnwys arwain ar Fargen Twf Canolbarth Cymru ac yn fwy diweddar Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (RSP).

Fel y gallwch weld, dw i wedi bod o gwmpas am ychydig!

- **A allwch ddweud mwy wrthym am eich rôl?**

Er fy mod yn cael fy nghyflogi gan Gyngor Sir Powys, mae gen i rôl ranbarthol sy'n arwain ar waith y Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru a'r tîm Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, ac rwy'n rhannu'r Cyd-Arweinydd Strategol ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru gyda Carwyn Jones-Evans yng Ngheredigion lle rydym yn arwain ar bob agwedd ar y gwaith yn Tyfu Canolbarth Cymru. Mae Carwyn hefyd yn fy nghefnogi gyda'r gwaith ar arwain tîm yr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru a'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru.

Rwy'n hoffi meddwl ein bod ni'n gwneud tîm da!

- **Beth yw eich blaenoriaethau presennol?**

Wrth i mi ysgrifennu hwn ar y dydd Gwener cyn wythnos y Sioe Frenhinol Cymru, fy mlaenoriaeth ar hyn o bryd yw sicrhau bod gennym ddigwyddiad Tyfu Canolbarth Cymru / Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol llwyddiannus yn y sioe ddydd Llun. Rwy'n edrych ymlaen at weld y tîm, yn ymgysylltu â'r Aelodau a busnesau ar draws y rhanbarth i ddathlu llwyddiannau Tyfu Canolbarth Cymru a chodi ymwybyddiaeth o'r Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Croesi bysedd y bydd yn mynd yn dda!

Yn gyffredinol, fy mlaenoriaethau strategol yw:

Sicrhau fy mod yn darparu arweiniad effeithiol a chadarn i'r tîm er mwyn ein galluogi ni i gyd i gyflawni'r gwaith sydd o'n blaenau ar draws y rhanbarth. Mae'r 12 mis nesaf yn mynd i fod yn gyffrous iawn yn enwedig ar gyfer y fargen Twf wrth i ni symud tuag at dynnu'r cyllid i ddechrau cyflwyno rhai o'r prosiectau. Gwyliwch y gofod hwn!

Hefyd, er mwyn sicrhau bod cydweithio llwyddiannus rhwng y ddau Awdurdod Lleol a rhanddeiliaid ehangach ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio fel un tîm yn y rhanbarth i gyflawni'r canlyniadau ar gyfer economi Canolbarth Cymru.




*3 - Derbyniad Tyfu Canolbarth Cymru, Y Sioe Frenhinol Cymru 2023*

- **Pa ddatblygiadau ydych chi wedi'u gweld dros y blynyddoedd?**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi gweld bod awydd ac angerdd cynyddol am gydweithio ar draws rhanbarth Canolbarth Cymru. Mae hyn yn cael ei alluogi drwy waith y Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru a Tyfu Canolbarth Cymru o dan arweinyddiaeth y ddau Arweinydd - y Cynghorydd James Gibson Watt a'r Cynghorydd Bryan Davies ac rwy'n falch o fod yn rhan o'r tîm sy'n cyflawni'r gwaith ar eu rhan.

- **Beth yw eich cyflawniad mwyaf?**

Mae gen i bron i 40 mlynedd o brofiad o weithio yn y Sector Preifat a Chyhoeddus (dywedais wrthych fy mod wedi bod o gwmpas ychydig!) ac yn 22 oed roeddwn yn un o'r Rheolwyr ieuengaf o fewn Dŵr Cymru.

Yn ogystal, rwy'n hynod falch o'r holl waith sydd wedi digwydd ar draws rhanbarth Canolbarth Cymru sydd wedi ein galluogi i gyrraedd lle'r ydym heddiw.

Yn fy mywyd personol, rwy'n angerddol am dreulio amser gyda fy nheulu. Mae gen i ddau o blant 23 a 19 oed ac maen nhw'n dal eisiau dod ar wyliau gyda Mam a Dad (cyn belled â'n bod ni'n talu!)



*4 - Nicola a'r teulu.*

- **Un gair sy'n crynhoi Tîm Tyfu Canolbarth Cymru:**

**Anhygoel** – Mae pob un aelod o dîm Tyfu Canolbarth Cymru wedi ymrwymo i 'wneud gwahaniaeth' i economi Canolbarth Cymru beth bynnag yw eu rôl. Fy hoff amser o'r wythnos yw pan fyddwn ni i gyd yn dod at ein gilydd am gyfarfod tîm fore Llun i rannu ein cynlluniau gwaith ar gyfer beth ni gyd wedi bod yn ei wneud. Maent yn dîm **gwych** yr wyf yn ffodus iawn i weithio gyda nhw.

## Edrych ymlaen

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd?  Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad:  Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds